COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD IAU, 16 CHWEFROR 2023, AM 10:00

Presennol

Y Cynghorydd F D Bletsoe – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| E L P Caparros | P Davies | P Ford | D M Hughes |
| M Lewis | A Wathan | AJ Williams | R Williams |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RL Penhale-Thomas

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Lucy Beard | Swyddog Craffu |
| Jackie Davies | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion |
| Carmel Donovan | Rheolwr Grŵp - Gwasanaethau Cymunedol Integredig |
| Cynghorydd Jane Gebbie | Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Jessica Mclellan | Swyddog Craffu |
| Mark Wilkinson | Rheolwr Grwp, Anabledd Dysgu, Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau |

Gwahoddedigion:

24. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Datganodd Cyfarwyddwr Corfforaethol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant fuddiant personol yn eitem 3 ar yr agenda gan fod aelod agos o'i theulu yn derbyn Gofal Cartref ym Mhen-y-Bont ar Ogwr.

25. MEYSYDD PWYSAU MEWN GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

Cyflwynodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yr adroddiad a diben hwn oedd esbonio'r pwysau oedd yn cael ei brofi ar y gwasanaeth ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, disgrifio'r camau lliniaru yr oedd y gwasanaeth yn eu cymryd a'r gwaith ar draws Iechyd a Gofal Cymdeithasol i reoli'r sefyllfa gyffredinol, gan ganolbwyntio. ar y gwasanaethau Gofal a Chymorth yn y Cartref, a'r gwasanaeth gwaith cymdeithasol.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Y rhaglenni adsefydlu sengl ac amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar nodau a ddefnyddir mewn gwasanaethau ymyrraeth tymor byr gan ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau yn y cartref.
- Nifer ac oedran cyfartalog y bobl sy'n disgwyl am becynnau gofal gartref ac yn yr ysbyty, y ffactorau sy'n effeithio ar yr amseroedd aros amrywiol am becyn gofal a chymorth.

- Rheolaeth weithredol ar restrau aros, gan gynnwys galwadau ffôn rheolaidd, ymweliadau gwaith cymdeithasol, ail asesiadau a therapïau.
- Effaith y pandemig ar iechyd corfforol a meddyliol pobl, y cyllid adfer sylweddol a dderbyniwyd i gynorthwyo i ailadeiladu gallu a phwysigrwydd gwasanaethau ataliol.
- Proffil oedran gweithwyr gofal ac annog unigolion i ddilyn cyrsiau gwaith cymdeithasol TGAU a Safon Uwch er mwyn denu pobl iau a chodi ymwybyddiaeth o fanteision gwaith cymdeithasol.
- Y cynnydd yn yr achosion o ddementia, a oes angen pecynnau gofal mwy cymhleth ar gleifion dementia a chanolbwyntio ar fyw yn dda gyda dementia yn y cartref ac mewn cymuned gefnogol a chyfeillgar i ddementia.
- Cost gofal yn yr uned ddementia newydd yng Ngharchar y Parc, menter gan y Bwrdd Iechyd.
- Lefel y gefnogaeth a gynigir gan ddarpariaeth annibynnol, yr angen i ail-gydbwyso'r farchnad mewn perthynas â darparwyr annibynnol a chymorth mewnol ac y dylai gweithwyr gael eu talu am yr holl oriau a weithiwyd, gan gynnwys yr amser rhwng galwadau.
- Yr angen am lefel broffesiynol o gyflog, telerau ac amodau, gan dynnu sylw at y farchnad gystadleuol mewn sectorau heb eu rheoleiddio sy'n cynnig cyflogau uwch.
- Telerau ac amodau GIG deniadol ar gyfer rhai bandiau swyddi a threfniadau sy’n galluogi staff gofal cartref i gael eu cyflogi o dan delerau ac amodau’r GIG a gweithio i’r Awdurdod Lleol o dan lywodraethiant y Cyngor.
- Cefnogaeth i staff gofal gan gynnwys cymorth i gynnal a chadw car, tocynnau Cludiant cyhoeddus a chyllid diweddar a gafwyd i gefnogi staff sy'n dymuno cael gwersi gyrru.
- Rhesymau pam mae Gweithwyr Cymdeithasol yn gadael yr Awdurdod gan gynnwys ymddeoliad, y farchnad gystadleuol ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol cofrestredig ar hyd coridor yr M4 a'r argyfwng costau byw.
- Cynhelir cyfweliadau ymadael fel mater o drefn yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Plant ond nid ydynt wedi cael eu gweithredu’n llawn eto yn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion.
- 20 diwrnod o amser ar gyfartaledd i ddyrannu achosion gwaith cymdeithasol a rheolaeth weithredol ar achosion heb eu dyrannu.
- Nifer y Lefel DU/Camau Parhad Busnes sy'n cael eu galw a chydnabyddiaeth ei fod wedi dod yn fwy aml yn ystod y 3 mis diwethaf.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd i'r Gwahoddedigion am fod yn bresennol a dywedodd, os nad oedd eu hangen ar gyfer yr Eitem nesaf, eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda’r Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

1. Ystyried a oes hysbysebu/ymwybyddiaeth ddigonol o'r buddion sydd ar gael i gefnogi staff gofal gyda'u tanwydd neu gostau teithio eraill, a achosir yn ystod eu sifftiau, a'r cyllid a gafwyd yn ddiweddar i gefnogi staff sy'n dymuno cael gwersi gyrru.

2. Ar ôl clywed bod cyfweliadau ymadael yn cael eu cynnal fel mater o drefn ym maes Gofal Cymdeithasol i Blant, dylid ystyried sut y gellir cynnal hyn hefyd ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, cyn gynted â phosibl, er mwyn casglu'r data a'r rhesymau pam mae staff a gweithwyr cymdeithasol yn benodol, yn gadael yr awdurdod lleol.

3. Ar ôl clywed bod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn recriwtio staff i ofal cartref o dan Delerau ac Amodau mwy ffafriol y GIG, a bod y staff hynny wedyn yn gweithio i'r awdurdod lleol o dan drefniant Adran 33, argymhellodd y Pwyllgor y dylid ystyried sut y gellid cael ail-gydbwyso telerau ac amodau staff fel bod cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan yr Awdurdod Lleol yn deg.

a gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

4. Copi o'r ymateb i lythyr y Cabinet at Weinidog Llywodraeth Cymru ynglŷn â chost a threfniadau ariannu staff gofal yng Ngharchar y Parc, pan ddeuai i law.

5. Nifer yr achlysuron y galwyd lefel DU/Cam Parhad Busnes yn Ysbyty Tywysoges Cymru yn ystod y 3, 6 a 12 mis diwethaf.

26. <u>DATBLYGU GWASANAETHAU ANABLEDDAU DYSGU</u>

Cyflwynodd Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion yr adroddiad, a'i ddiben oedd disgrifio'r gwasanaethau anabledd dysgu oedd yn gweithredu yn y Fwrdeistref Sirol ac adrodd am ddatblygiadau yn y ffordd y darperid gwasanaethau anabledd dysgu a'r ffactorau allweddol oedd yn effeithio arnynt.

Dywedodd Rheolwr Gweithredol Pobl yn Gyntaf Pen-y-bont ar Ogwr fod Pobl yn Gyntaf yn elusen sy'n rhoi llais i bobl ag anableddau dysgu ac yn eu cynorthwyo i gael mwy o ddewis drwy hunan-eiriolaeth ac eiriolaeth annibynnol. Tynnodd sylw hefyd at nifer o feysydd eraill y mae'r elusen yn cynorthwyo pobl gan gynnwys darparu hyfforddiant a chyfieithu dogfennau i fformatau hawdd eu darllen.

Dywedodd y Defnyddwyr Gwasanaeth a wahoddwyd i'r cyfarfod eu bod yn gwerthfawrogi'r ffordd yr oedd yr oedd eiriolaeth wedi gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu trin â pharch ac roeddent yn sôn am y ffordd yr oedd Pobl yn Gyntaf wedi eu helpu gyda sgiliau bywyd pwysig megis delio â'r heddlu, y gwasanaeth tân a staff meddygol a rheoli eu materion ariannol eu hunain.

Diolchodd y Cadeirydd i Bennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwahoddedigion a bu'r Aelodau'n trafod y canlynol:

- Bod y Defnyddwyr Gwasanaeth yn hapus ar y cyfan gyda'r gwasanaethau y maent yn eu derbyn megis cymorth gyda thasgau, cyllidebu a theithio ond yn tynnu sylw at broblemau gyda phrydlondeb staff a chael eu hysbysu'n hwyr am salwch staff.
- Nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n hysbys i Dîm Anableddau Dysgu Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr, canfod yn fuan y bobl ag anableddau dysgu sydd angen cymorth, pwysigrwydd gwasanaethau atal a lles ac ehangu cydgysylltu cymunedol lleol.
- Adolygiad arbenigol allanol o fodel gweithgareddau dydd gan gynnwys effaith y pandemig.

- Ariannu’r gwasanaeth a buddsoddiad i weithredu'r ailfodelu a chreadigrwydd ac ymroddiad staff i ddarparu gwasanaethau.
- Cludiant ar gyfer Gwasanaethau Dydd ac ymdrechion i'w wneud yn fwy cydgysylltiedig a chost-effeithlon, gan gynnwys datblygu ap newydd a'r heriau a'r rhwystrau i ddefnyddio cludiant cyhoeddus.
- Mwy o waith oherwydd gweithredu'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.
- Y ffyrdd yr effeithiodd y pandemig ar y Defnyddwyr Gwasanaeth, yn enwedig eu bywydau cymdeithasol ac, wrth i wasanaethau ddychwelyd, maent yn teimlo'n fwy cadarnhaol.

Dywedodd y Cadeirydd fod Aelodau'r Pwyllgor oedd yn dymuno gofyn cwestiynau i gyd wedi siarad, felly gan nad oedd unrhyw gwestiynau pellach i'r Gwahoddedigion, diolchodd iddynt am fod yn bresennol a dywedodd eu bod yn rhydd i adael y cyfarfod.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaethau manwl gyda’r Swyddogion ac Aelodau’r Cabinet, gwnaeth y Pwyllgor yr Argymhellion a ganlyn:

6. Ystyried sut y gellir rheoli achosion o staff yn cyrraedd yn hwyr ac ychydig o rybudd o salwch staff er mwyn osgoi oedi neu ohirio diwrnod allan y dywedodd Defnyddwyr Gwasanaeth ei fod yn cael effaith aflonyddgar ac ansefydlog arnynt.

7. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch yr effaith y gallai newid dull teithio Polisi Llywodraeth Cymru o ddefnyddio ceir i gludiant cyhoeddus ei chael, drwy amddifadu pobl ag anableddau dysgu a chyflyrau niwroamrywiol, a all wynebu ofn a thrallod wrth ddefnyddio cludiant cyhoeddus, ac argymhellodd bod y Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at hwn fel maes pryder posibl.

27. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Cyflwynodd y Swyddog Craffu y Flaenraglen Waith (FWP) yn Atodiad A i'r Pwyllgor ei thrafod a'i hystyried, gan ofyn am unrhyw wybodaeth benodol a nodwyd gan y Pwyllgor i'w chynnwys yn yr eitemau ar gyfer y ddau gyfarfod nesaf, gan gynnwys y bobl y dymunent eu gwahodd i fynychu. Gofynnodd i’r Pwyllgor nodi unrhyw eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith gan gofio’r meini prawf dethol ym mharagraff 4.3 a gofynnodd i'r Pwyllgor nodi’r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed mewn cyfarfod blaenorol yn Atodiad B. Gofynnodd hefyd i’r Pwyllgor nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgor a’r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol.

Gofynnodd y Pwyllgor am i'r eitemau canlynol gael eu hystyried i'w hychwanegu at Flaenraglen Flynyddol 2023-24 yn y Cyfarfod Cynllunio Craffu nesaf ar gyfer SOSC 2:

- Canlyniad yr adolygiad arbenigol allanol o wasanaethau anabledd dysgu ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Ni nodwyd eitemau pellach i'w hystyried ar y Flaenraglen Waith o ystyried y meini prawf dethol ym mharagraff 4.3, a gellid ailystyried hyn yn y cyfarfod nesaf.

Nid oedd unrhyw geisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Flaenraglen Waith yn Atodiad A, yn amodol ar gynnwys y cais uchod, yn nodi'r Daflen Weithredu Monitro Argymhellion yn Atodiad B, ac yn nodi y ceid adroddiad am y Flaenraglen Waith, y Daflen Weithredu Monitro Argymhellion ac unrhyw ddiweddariadau gan y Pwyllgor yng nghyfarfod nesaf COSC.

28. EITEMAU BRYS

Dim.